Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

# Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – Prif Grŵp Gwariant Trafnidiaeth

26/11/2025

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth am gynigion y gyllideb ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Trafnidiaeth, fel y'u hamlinellir yn ail gam Cyllideb Ddrafft 2026-27 a gyhoeddwyd ar 3 Tachwedd 2025. Mae hefyd yn rhoi diweddariad am feysydd sydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor.

## Cynnwys

Cyffredinol 3

Blaenoriaethau 5

Deddfwriaeth 8

Newid Hinsawdd 8

Trafnidiaeth 8

Crynodeb 16

Atodiad A – Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BELs) – MEG Trafnidiaeth 17

# Cyffredinol

## Dadansoddiad o Gyllideb Ddrafft 2026-27

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r cynlluniau MEG Trafnidiaeth fel y'u cyhoeddwyd fel rhan o gam 2 yn y Gyllideb Ddrafft 2026-27 ar 3 Tachwedd. Mae'n cadarnhau cynnydd mewn adnoddau cyllidol (refeniw gan gynnwys heb fod yn arian parod) o £29m a chyfalaf cyffredinol o £23m o gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-27.

| TRAFNIDIAETH - CRYNODEB | Cynlluniau yn unol â Chyllideb Derfynol 2025-26 Ailddatganwyd Chwefror 2025 | Addasiadau i'r llinell sylfaen ar gyfer 2026-27 | Llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-27 | Newidiadau | Cyllideb Ddrafft 2026-27 Hydref 2025 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| | | | | | |
| **ADNODDAU** | **888,468** | **6,548** | **895,016** | **29,049** | **924,065** |
| **CYFALAF** | **529,197** | **-400** | **528,797** | **22,576** | **551,373** |
| **Cyfanswm Refeniw a Chyfalaf** | **1,417,665** | **6,148** | **1,423,813** | **51,625** | **1,475,438** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | **2,000** | **0** | **2,000** | **44,936** | **46,936** |
| | | | | | |
| **TRAFNIDIAETH** | **1,419,665** | **6,148** | **1,425,813** | **96,561** | **1,522,374** |

Y llinell sylfaen a ddefnyddir ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2026-27 yw Cyllideb Derfynol 2025-26 (Chwefror 2025). Mae'r llinell sylfaen wedi'i haddasu ar gyfer addasiadau cylchol i'r llinell sylfaen ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 i gefnogi dyfarniad cyflog y sector cyhoeddus a chynnydd i gyfraniadau pensiwn. Yn ogystal â'r costau cyflog, mae addasiadau pellach i'r llinell sylfaen sy'n gysylltiedig â chyllid anghylchol. Yna mae cynnydd chwyddiant wedi'i gymhwyso ar gyfer refeniw a chyfalaf i adlewyrchu rhagolygon twf diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

Darperir dadansoddiad o'r addasiadau hyn i'r llinell sylfaen yn y crynodeb o linellau gwariant yn y gyllideb (BELs) Trafnidiaeth yn **Atodiad A**.

## Adnodd Cyllidol (Refeniw gan gynnwys heb fod yn arian parod)

Mae cyllid refeniw ychwanegol o £29m yn cael ei ddyrannu i'r MEG Trafnidiaeth ym mlwyddyn ariannol 2026-27 o'i gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-27. Mae hyn yn cynnwys dyraniadau anghylchol o £4m ar gyfer Menter Benthyca Llywodraeth Leol, £1.250m ychwanegol i gefnogi lein Calon Cymru a £9.811m ar gyfer Model Buddsoddi Cydfuddiannol yr A465. Mae dyraniad cylchol ychwanegol wedi'i ddarparu yn y gyllideb hon i gefnogi ein meysydd blaenoriaeth allweddol fel bysiau (£2.669m) a rheilffyrdd (£11.319m).

## Cyfalaf

Fel rhan o'r gyllideb hon bu cynnydd net o £22.6m mewn cyllid cyfalaf i'r MEG Trafnidiaeth. Bydd hyn yn cefnogi ein blaenoriaethau allweddol fel cynnal ein rhwydwaith rheilffyrdd, paratoi ar gyfer masnachfreinio bysiau, gwella ein rhwydwaith ffyrdd strategol a hyrwyddo teithio llesol. Bu gostyngiad o £0.400m o'r llinell sylfaen ar gyfer 2026-27 ar gyfer cael gwared ar gyllid cyffordd Pont y Bat ar yr A470.

## Gwariant a Reolir yn Flynyddol - AME

Mae cyllideb AME wedi cynyddu £44.936m ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2026-27. £46.936m yw'r gyllideb erbyn hyn. Mae'r gyllideb AME yn darparu ar gyfer tâl amhariad disgwyliedig ar y rhwydwaith cefnffyrdd ar ôl cwblhau cynllun(iau).

Mae ffigurau AME y Gyllideb ddrafft yn adlewyrchu'r rhagolygon a gyflwynwyd i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Ionawr 2025.

Mae **Atodiad A** yn rhoi manylion Cyllideb Ddrafft 2026-27 fesul Maes y Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb, yn cynnwys data cymharol 2025-26.

## Blaenoriaethau

**Manylion eich blaenoriaethau a sut maen nhw'n cael eu hadlewyrchu yn y dyraniadau cyllideb. Esboniad manwl o sut y penderfynwyd ar flaenoriaethau cyllidebol, yn enwedig yng ngoleuni pwysau chwyddiant a chyfyngiadau cyllidol.**

Mae heriau sylweddol ar y gorwel o ran cyllidebau trafnidiaeth oherwydd effeithiau chwyddiant adeiladu, paratoadau ar gyfer masnachfreinio bysiau, cynnydd disgwyliedig mewn siwrneiau bws consesiynol gorfodol, a chyflawni ymrwymiadau datgarboneiddio. Mae hyn wedi gofyn am gyfaddawdau i gynnal rhaglenni a gwasanaethau presennol cyn belled â phosibl. Mae fy swyddogion yn parhau i holi a herio rhagolygon y gyllideb trafnidiaeth yn Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru i nodi cyfleoedd ar gyfer torri, lleihau, ac ailamseru rhaglenni trafnidiaeth er mwyn caniatáu cyflawni rhaglenni ymrwymedig y flwyddyn ariannol nesaf.

Yng nghyd-destun blaenoriaeth y Llywodraeth ar gyfer Gwell Trafnidiaeth, y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru), a moderneiddio ein grantiau trafnidiaeth i gyflawni Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, datblygwyd cyllidebau trafnidiaeth yn seiliedig ar y blaenoriaethau canlynol:

1. Cynnal gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus lle bynnag y bo modd
2. Gwella'r fflyd bysiau yng Nghymru a pharatoi ar gyfer masnachfreinio
3. Cynyddu cyllid ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol
4. Parhau i wella diogelwch a gwydnwch y rhwydwaith ffyrdd.
5. Cwblhau'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau rheilffyrdd Cymru, yn enwedig ar Linellau Craidd y Cymoedd a chyflwyno'r tram-drenau newydd

**Esboniad manwl ar sut mae'r gyllideb ddrafft yn adlewyrchu ymrwymiadau a wnaed mewn blynyddoedd ariannol blaenorol, gyda chyfeiriad penodol at adroddiad y Pwyllgor ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2025-26**

*Bysiau*

Fel rhan o'ch gwaith craffu ar gyllideb 2025-26, argymhellodd y Pwyllgor welliant i'r cynnig tocynnau bws i bobl ifanc. O ganlyniad, gwnaethom ymrwymo i gynnig gwell ar gyfer pawb 21 oed ac iau fel rhan o gynllun peilot 12 mis ar draws blynyddoedd ariannol 2025-26 a 2026-27. Mae'r cynllun hwn bellach ar waith, ac o ganlyniad mae'r dyraniad cyllideb refeniw

ar gyfer BEL 1880 Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Bysiau yn £143.169m ar gyfer 2026-27 i adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i docynnau teithio rhatach i bobl ifanc.

*Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'r Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol*

Fel rhan o'r broses pennu cyllideb ddiwethaf ar gyfer 2025-26, gwnaeth y Pwyllgor sawl argymhelliad ynghylch parodrwydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig i gyflawni eu rôl newydd yn ymwneud â thrafnidiaeth. O ganlyniad, gwnaethom ddyfarnu £0.200m i bob Cyd-bwyllgor ym mlwyddyn ariannol 2025-26 i'w helpu i feithrin gallu a galluogrwydd. Mae pob Cyd-bwyllgor bellach wedi cwblhau eu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn llwyddiannus, a'r pedwar cynllun wedi'u cymeradwyo.

Yn 2026-27 byddwn yn parhau i foderneiddio ein grantiau trafnidiaeth awdurdodau lleol trwy uno'r grantiau trafnidiaeth lleol presennol i greu Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol newydd, gydag awdurdodau lleol a'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn argymell sut y dylid dyrannu cyllid i gyflawni eu cynlluniau. Mae Cyd-bwyllgorau wedi dechrau gweithio gydag awdurdodau lleol i gytuno ar y cynlluniau a argymhellir ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27.

*Teithio Llesol*

Gwnaeth y Pwyllgor sawl argymhelliad ynghylch teithio llesol yn eu hadroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2025-26. Roedd llawer ohonynt yn ymwneud â'r newid i'r model cyllido, gyda'r symud o Gronfa Teithio Llesol bwrpasol i'r Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol ac yn holi beth yw'r trefniadau ar gyfer cynlluniau teithio llesol yn y dyfodol. Mae gan Gyd-bwyllgorau Corfforaethol ofyniad statudol i sicrhau y bydd eu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn bodloni nodau Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, lle mae cefnogi Teithio Llesol yn flaenoriaeth graidd.

Mae pob un o'r pedwar Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a gymeradwywyd yr hydref hwn yn cydnabod rôl bwysig teithio llesol, sydd hefyd wedi'i adlewyrchu yn y rhaglenni cyflawni newydd a gaiff eu cwblhau yn y misoedd nesaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27. Wrth i'r model cyllido newydd ddatblygu, byddwn yn parhau i fonitro cyflawniad y cynllun a gwariant yn ôl dull teithio.

*Rhwydwaith Ffyrdd Strategol*

Mae'r cyllid ychwanegol ar gyfer y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol ym mlwyddyn ariannol 2025-26 wedi caniatáu inni ddarparu cronfa atal tyllau gwerth £25m i gwrdd â blaenoriaeth "trwsio ein ffyrdd" Trafnidiaeth Well Llywodraeth Cymru. Bydd cynyddu'r cyllid hwn yn 2026-27 yn caniatáu inni barhau â'r rhaglen hon i atgyweirio diffygion seilwaith sydd angen sylw brys.

Bydd y rhan fwyaf o'r gyllideb gyfalaf yn cael ei buddsoddi ar gynnal ac adnewyddu'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol sy'n hanfodol ar gyfer diogelwch holl ddefnyddwyr y ffordd, cysylltu cymunedau, a chefnogi twf economaidd.

Hefyd, bydd y cyllid cyfalaf yn caniatáu i brosiectau mawr parhaus barhau i gael eu datblygu a'u cyflawni, gan gynnwys cynllun adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy yr A494, Ffordd Osgoi Llandeilo yr A483, Gwelliannau Gwydnwch Afon Menai, Porth Gorllewinol yr A483 a gwaith Tynnu Cefnffordd Adran 5 a 6 yr A465. Bydd adolygiadau o anghenion a gwydnwch yn cael eu cynnal ar gyfer yr A55/A494, yr A483 a'r M4 i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o'r heriau a'r cyfleoedd ar hyd y coridorau allweddol hyn ynghyd ag ymyriadau posibl i fynd i'r afael â nhw. Bydd yr adolygiadau gwydnwch hyn yn canolbwyntio ar ddiogelwch, cysylltedd, gwydnwch, hygyrchedd, perfformiad gweithredol, gwydnwch hinsawdd a chefnogi twf economaidd.

Bydd ein hymrwymiadau contractiol refeniw ar gyfer taliadau model buddsoddi cyd-fuddiannol yr A465, tollau Pont Cleddau a thaliadau DBFO yr A55 yn parhau i gael eu cyflawni. Bydd costau chwyddiant ar gyfer cynnydd mewn cyflogau, offer a deunyddiau yn cael eu hamsugno o fewn y cyllid sy'n weddill a fydd yn arwain at ostyngiad o ran cyflawni yn erbyn yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw. Fodd bynnag, bydd diogelwch a gwydnwch cyffredinol y rhwydwaith yn cael blaenoriaeth.

**Gwybodaeth am effaith penderfyniadau polisi Llywodraeth y DU ar ddyraniadau cyllideb**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ategu ei hymrwymiad i Gyngor Caerdydd ar gyfer cam cychwynnol prosiect Cledrau Croesi Caerdydd (*Cardiff Crossrail*). Mae'r prosiect hwn bellach yn y camau cyflawni cynnar gyda Chyngor Caerdydd yn tynnu i lawr y £50m a ddyrannwyd gan Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU, a chyfraniad cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru yn dechrau yn 2026-27, a disgwylir cwblhau'r prosiect yn 2028.

Yn Adolygiad Gwariant y DU ym mis Mehefin, sicrhaodd Llywodraeth Cymru £12m o arian ychwanegol y flwyddyn gan Lywodraeth y DU ar gyfer gwelliannau i Linellau Craidd y Cymoedd dros bedair blynedd. Mae'r BEL cymorth ar gyfer gwasanaeth rheilffyrdd wedi'i gostwng £1.27m gan adlewyrchu gostyngiad yng ngwariant Llywodraeth Cymru ar raglen trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd.

Roedd yr Adolygiad Gwariant hefyd yn cynnwys £302m ar gyfer gwelliannau i'r seilwaith i wella rhwydwaith Cymru a'r Gororau yn De a'r Gogledd. Yn y Gogledd, bydd y cyllid yn caniatáu cau croesfannau gwastad, gan alluogi Trafnidiaeth Cymru i ddarparu 50% yn fwy o wasanaethau gan gynnwys gwasanaeth uniongyrchol bob awr rhwng Llandudno a Lerpwl. Bydd y cyllid hefyd yn caniatáu i Network Rail uwchraddio'r lein o Wrecsam i Lerpwl gan arwain at ddau drên yr awr ar y llinell hon.

Yn y De, mae cyllid wedi'i ddyrannu i nifer o brosiectau gwella gan gynnwys uwchraddio cyffordd Gorllewin Caerdydd a helpu i ddarparu gorsafoedd Burns. Roedd yr Adolygiad

Gwariant hefyd yn addo £95m y tu hwnt i gyfnod yr Adolygiad Gwariant fel rhan o strategaeth seilwaith Llywodraeth y DU.

## Deddfwriaeth

**Sut mae'r gyllideb ddrafft yn darparu ar gyfer cyflawni deddfwriaeth newydd a deddfwriaeth a gynllunir gan Lywodraeth Cymru.**

Mae'r Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) yn mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd. Fel rhan o'n hymrwymiad i ddylunio a chynllunio gwasanaethau bysiau sy'n diwallu anghenion cymunedau drwy'r Bil, rydym wedi dyrannu cyllideb gyfalaf o £40m o fewn BEL 1880 Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Bysiau ar gyfer 2026-27 i gefnogi'r ddeddfwriaeth.

## Newid Hinsawdd

**Manylion am y modd y mae dyraniadau'r gyllideb ddrafft yn cefnogi: Cyflawni'r polisïau a'r cynigion yng nghynllun Sero Net Cymru sy'n rhan o'ch portffolio**

Mae'r Gyllideb ddrafft yn cefnogi fy ffocws ar ddatgarboneiddio trafnidiaeth yn unol â'n polisïau Sero Net Cymru.

Bydd buddsoddiadau cyfalaf yn ein rhwydwaith rheilffyrdd, rhwydwaith bysiau, a cherdded, olwynio a beicio yn annog newid i ddefnyddio dulliau trafnidiaeth cynaliadwy. Bydd buddsoddiadau mewn bysiau newydd a seilwaith depo i gefnogi hyn yn darparu gwasanaethau glanach a mwy modern. Bydd cyllid ar gyfer awdurdodau lleol yn cynnwys cymorth ar gyfer seilwaith gwefru cerbydau trydan.

Bydd dyraniadau refeniw yn parhau i adeiladu ar ein sail dystiolaeth i gefnogi datgarboneiddio trafnidiaeth, gan gynnwys ariannu Partneriaeth Zemo i fwrw ymlaen â rhaglen waith ar ddatgarboneiddio cerbydau masnachol.

Mae cynnal a chadw a datblygu'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN) wedi dod yn llai carbon ddwys trwy newid prosesau, technegau adeiladu a deunyddiau i gefnogi amcanion Sero Net. Mae cyllid hefyd ar gael i addasu'r rhwydwaith er mwyn lleihau effeithiau newid hinsawdd.

## Trafnidiaeth

**Manylion am y modd y mae dyraniadau'r gyllideb ddrafft yn cefnogi - cyflawni'r fasnachfraint rheilffyrdd a blaenoriaethau seilwaith rheilffyrdd Llywodraeth Cymru.**

<u>Masnachfraint Rheilffyrdd</u>

Mae £401m o gyllid refeniw wedi'i ddyrannu yn y gyllideb ddrafft hon i BEL 1895 cymorth ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd er mwyn cefnogi gwasanaethau rheilffyrdd gan Trafnidiaeth

Cymru. O dan delerau'r Cytundeb Asiantaeth a'r Cytundeb Cyllido ac Allbynnau gyda Llywodraeth y DU, bydd Trafnidiaeth Cymru hefyd yn cael oddeutu £20m gan yr Adran Drafnidiaeth ar gyfer cynnydd mewn ffioedd mynediad i'r rhwydwaith rheilffyrdd a chyllid ar gyfer gwasanaethau yn Lloegr. Bydd y cyllid hwn yn parhau i gefnogi ein buddsoddiad o blaenorol o £800m mewn trenau newydd, yn darparu gwasanaethau newydd fel y gwasanaeth uniongyrchol o Lerpwl i Landudno o fis Mai 2026 ymlaen, ac yn caniatáu i Trafnidiaeth Cymru barhau i gynnig tocynnau trên sy’n cynnig gwerth am arian i deithwyr.

<u>Seilwaith Rheilffyrdd</u>

Mae £180m o gyllid cyfalaf o'r BEL 1895 cymorth ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd wedi'i ddyrannu yn y gyllideb hon er mwyn helpu i gyflawni'r gwaith parhaus o drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd a cham cychwynnol Cledrau Croesi Caerdydd.

Mae'r gwaith o drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd wedi cyrraedd y cam olaf, gyda Thrafnidiaeth Cymru yn cwblhau'r gwaith o drydaneiddio lein Rhymni, gwaith adnewyddu signalau a gwelliannau i orsafoedd er mwyn sicrhau mynediad gwastad. Bydd y trawsnewidiad yn galluogi mwy o wasanaethau 'cyrraedd-a-mynd' ledled rhwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd, a fydd law yn llaw â threnau newydd sbon a thocynnau tapio i mewn ac allan, yn arwain at dwf pellach mewn niferoedd teithwyr a refeniw.

**Manylion am y modd y mae dyraniadau’r gyllideb ddrafft yn cefnogi - darparu Metros Gogledd-ddwyrain Cymru, De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru**

Ym mis Mai 2025 fe wnaethom lansio Rhwydwaith Gogledd Cymru, ein cynllun uchelgeisiol i ddarparu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig, gyda theithiau rheolaidd, yn y Gogledd. Canolbwynt y cyfan fydd Metro Gogledd Cymru. Dyrannwyd £13.6m o'r gyllideb Trafnidiaeth Ranbarthol i Rwydwaith Gogledd Cymru yn 2025-26. Sicrhawyd buddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth y DU ar gyfer gwelliannau i’r seilwaith rheilffyrdd yn yr Adolygiad Gwariant. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y rhaglen hon yn 2026-27 i uwchraddio ein seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn y Gogledd.

Bydd cyllid o'r llinell gyllideb Trafnidiaeth Ranbarthol yn parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau ar gyfer Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru hefyd, sy'n cynnwys ystod o welliannau arfaethedig i’r rheilffyrdd. Yn dilyn y £400,000 a fuddsoddwyd eleni, bydd cyllid pellach yn llywio gwaith Bwrdd Rheilffyrdd Cymru i ddatblygu ein cyd-flaenoriaethau ar gyfer rheilffyrdd yng Nghymru ar gyfer Adolygiadau Gwariant Llywodraeth y DU yn y dyfodol.

Mae Metro De-ddwyrain Cymru wedi datblygu ymhellach na'r prosiectau Metro eraill ac, fel y manylir uchod, rydym yn parhau i ariannu trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd. Bydd buddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth y DU hefyd yn cyflawni gwelliannau i Orsaf Caerdydd Canolog, Cyffordd Gorllewin Caerdydd, Llinellau Lliniaru De Cymru, ac yn

cefnogi'r gwaith o ddatblygu gorsafoedd yn Ne Cymru a argymhellwyd gan Gomisiwn Burns. Bydd y cynlluniau hyn, ochr yn ochr â gwelliannau sydd ar y gweill i wasanaethau bysiau trwy fasnachfreinio, yn creu rhwydwaith cynhwysfawr Metro'r De-ddwyrain. Bydd cyllid ychwanegol yn 2026-27 yn caniatáu dechrau adeiladu'r prosiectau nad ydynt yn reilffyrdd a argymhellwyd gan Gomisiwn Burns i wella teithio ar hyd coridor yr M4.

**Manylion am y modd y mae dyraniadau'r gyllideb ddrafft yn cefnogi datblygiad Trafnidiaeth Cymru, gan gynnwys ei sefydlogrwydd ariannol a'r bwlch rhwng costau gweithredol a refeniw tocynnau; hefyd gan gynnwys dadansoddiad o ddyraniad llawn Trafnidiaeth Cymru yn y gyllideb ar gyfer 2026-27, gan restru ei gyllideb gorfforaethol ochr yn ochr â dyraniadau ar gyfer darparu rhaglenni penodol yn ogystal ag ymrwymiadau'r fasnachfraint rheilffyrdd.**

Mae'r dyraniadau rhagarweiniol isod yn seiliedig ar yr iteriad cyntaf o ragolygon cyllideb Trafnidiaeth Cymru. Dyma'r cynharaf rydym wedi derbyn amcangyfrif cychwynnol Trafnidiaeth Cymru o'r costau a ragwelir ar gyfer y flwyddyn i ddod, ac mae'n ganlyniad ymdrechion sylweddol ar draws y naill sefydliad a'r llall i gysoni prosesau pennu cyllidebau TrC â'r amserlen gynharach ar gyfer Llywodraeth Cymru eleni.

Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i holi a herio rhagdybiaethau costau ac incwm ymhellach a fydd yn llywio llythyr cyllido blynyddol Llywodraeth Cymru. Byddwn yn ei gyhoeddi ochr yn ochr â chynllun busnes TrC cyn dechrau'r flwyddyn ariannol (fel sy'n arferol mewn ymateb i argymhellion blaenorol y Pwyllgor).

Cyllidebau Refeniw

| | | **Dyraniad Refeniw TrC (£m)** | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | | **25/26** | **26/27** | **Newid** |
| Cymorth ar gyfer Gwasanaeth Rheilffyrdd | 1895 | 381.2 | 400.2 | +19.0 |
| Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Bysiau | 1880 | 9.3 | 10.5 | + 1.2 |
| Cysylltedd Cenedlaethol a Rhyngwladol | 1883 | 1.5 | 1.5 | 0 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfan swm | 392.0 | 412.2 | +20.2 |

Nid yw'r gwerthoedd yn y tabl hwn yn cynnwys y dyraniad cyllid ychwanegol o tua £20.4m a ragwelir gan Lywodraeth y DU ar gyfer ffioedd mynediad i'r trac a gwasanaethau Lloegr yn unig, sydd eto i'w cwblhau.

Cyllidebau Cyfalaf

| | | Dyraniad Cyfalaf TrC (£m) | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | | **25/26** | **26/27** | **Newid** |
| Cymorth ar gyfer Gwasanaeth Rheilffyrdd | 1895 | 181.1 | 180.3 | -0.8 |
| Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Bysiau | 1880 | 31.0 | 39.9 | +8.9 |
| Trafnidiaeth Ranbarthol | 1882 | 24.4 | 17.4 | -7.0 |
| Trafnidiaeth Genedlaethol | 2030 | 4.1 | 2.0 | -2.1 |
| Rhwydwaith Ffyrdd Strategol | 1880 | 1.5 | 0.2 | -1.3 |
| | Cyfanswm | **242.1** | **239.8** | **-2.3** |

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae targedau ar gyfer arbedion wedi'u gosod ar gyfer TrC a byddwn yn parhau i weithio gyda'r sefydliad i nodi cyfleoedd ar gyfer lleihau costau a gwneud y mwyaf o refeniw wrth gynnal gwasanaethau hanfodol. Mae gosod targedau realistig ond estynnol ar gyfer y gyllideb wedi hyrwyddo arferion masnachol a rheolaeth ariannol ddarbodus a hyd yn oed mwy o ymrwymiad a diwylliant o gynyddu refeniw a lleihau costau.

O ran sefydlogrwydd ariannol TrC a'r bwlch rhwng costau gweithredol a'r refeniw tocynnau, rhagwelir y bydd y gofynion am gymhorthdal i reilffyrdd ym mlynyddoedd yn y dyfodol yn gostwng ym mlynyddoedd ariannol 27-28 a 28-29.

Cyllidebau Corfforaethol

Mae cyllideb gorfforaethol TrC yn cynnwys mwy a mwy o swyddogaethau rhedeg bysiau, yn enwedig wrth i TrC baratoi ar gyfer masnachfreinio bysiau. Mae ei gyllideb o £36.2m yn

cynrychioli costau aml-ddull rhedeg TrC gan gynnwys elfennau o'r swyddogaethau uchod nad ydynt yn benodol i reilffyrdd (gan gynnwys cyfleusterau eiddo) yn ogystal â swyddogaethau aml-ddull fel Cyfathrebu a Diogelwch. Mae hyn rhwng 3.7% a 4.9% o gyfanswm ei chyllideb (yn dibynnu ar y diffiniad o gostau canolog), o'i gymharu â chyfartaledd o 10.2% ar draws sefydliadau mewn diwydiannau rheoleiddiedig ac nid-er-elw, a 7.8% ar gyfer Network Rail.

Mae'n werth nodi bod y cyllidebau hyn bellach yn cynnwys costau gweithredu meddalwedd. Yn hanesyddol, byddai'r rhain wedi eu categoreiddio fel gwariant cyfalaf, ond o dan feddalwedd cwmwl, ni ellir cyfalafu costau gweithredu ac felly cânt eu trin fel refeniw.

| **£m** | **2026-27** |
|---|---|
| Gweithrediadau Craidd | 18.816 |
| Gwasanaethau Cymorth Aml-ddull | 7.339 |
| Diogelwch a Chynaliadwyedd | 2.060 |
| Marchnata a chyfathrebu | 7.044 |
| **Cyfanswm** | **35.259** |

Mae **Gweithrediadau Craidd** yn cynnwys TG, AD, Cyfreithiol ac yswiriant, Llywodraethiant, Cyllid a Rheoli Cyfleusterau

Mae **Gwasanaethau Cymorth Aml-ddull** yn cynnwys Gweithredol, Swyddfa Rheoli Prosiectau, Masnachol a Phrofiad Chwsmeriaid, a'r Gadwyn Gyflenwi

Mae timau'r ddau sefydliad yn dal i graffu ar y rhagolygon o gostau corfforaethol cyfredol hyn, cyn dyraniad cyllideb derfynol TrC. Yn naturiol, wrth i TrC ddod yn fwy aml-ddull, bydd mwy o weithgareddau a oedd yn canolbwyntio ar reilffyrdd yn flaenorol yn symud i'r gronfa costau aml-ddull.

**Manylion am y modd y mae dyraniadau'r gyllideb ddrafft yn cefnogi - Buddsoddiad (cynnal a chadw a gwella) yn rhwydwaith y cefnffyrdd a'r rhwydwaith traffyrdd**

Bydd y gyllideb hon yn cynnal y cynnydd i gyllideb y llynedd ar gyfer ailwynebu ffyrdd ac yn parhau â'r symudiad i wneud gwaith gynnal a chadw ataliol sy'n fwy costeffeithiol ac yn is mewn carbon. Bydd y rhaglen Adnewyddu Asedau Mawr yn cael ei datblygu ymhellach gan roi blaenoriaeth i adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy yr A494 gydag amcan gyllideb o

£15m gan y BEL Gweithrediadau ac Adnewyddiadau'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol. Bydd hyn yn caniatáu i'r cynllun fynd rhagddo trwy'r broses statudol ac yna adeiladu. Byddwn hefyd yn bwrw ymlaen ag argymhellion blaenoriaeth uchel Gwydnwch Afon Menai i'r camau nesaf o ddatblygu ac yn cwblhau'r gwaith tynnu statws cefnffordd o Ran 5 a 6 o'r A465 - amcangyfrifir mai'r gost fydd £10m.

**Manylion am y modd y mae dyraniadau'r gyllideb ddrafft yn cefnogi - Cynnal a chadw priffyrdd lleol.**

Rydym yn buddsoddi £4m ychwanegol yn y gyllideb hon ym Menter Benthyca Llywodraeth Leol ar gyfer Rheoli Priffyrdd. Mae hyn yn cynyddu cyfanswm y cymorth refeniw cylchol i awdurdodau lleol i £10m, gan ganiatáu iddynt ariannu tua £120m o gyllid cyfalaf i'w wario ar reoli priffyrdd a thrwsio ffyrdd lleol.

**Manylion am y modd y mae dyraniadau'r gyllideb ddrafft yn cefnogi - Datblygu a darparu masnachfraint bysiau a Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)**

Rydym yn cynyddu cyllideb cyfalaf bysiau £8.9m er mwyn parhau i fuddsoddi yn y fflyd a depos cyn masnachfreinio. Rydym hefyd wedi cynyddu'r gyllideb refeniw bysiau £2.7m, er bod y cynnydd hwn yn golygu gwneud penderfyniadau anodd ar flaenoriaethau, o ystyried costau ychwanegol prisiau siwrneiau consesiynol gorfodol. Os caiff y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) ei gymeradwyo gan y Senedd, bydd masnachfreinio yn dechrau yn ardaloedd y De-orllewin yn 2027, cyn symud i ranbarthau eraill dros y tair blynedd nesaf.

**Manylion am y modd y mae dyraniadau'r gyllideb ddrafft yn cefnogi - Cefnogaeth ar gyfer gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol, gan gynnwys crynodeb o weithgaredd wedi'i gynllunio a thabl yn manylu ar gyfanswm a dyraniadau y pen ar gyfer 2026-27 o'i gymharu â phob un o'r tair blwyddyn flaenorol. Dylai dyraniadau refeniw a'r dyraniadau cyfalaf fod yn glir, a dylai'r tabl gael ei ddadansoddi fesul ffrwd ariannu unigol.**

Mae cymorth ar gyfer gwasanaethau bws a thrafnidiaeth gymunedol wedi'i ariannu gan BEL 1880 Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Bysiau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Trafnidiaeth. Mae £40m o gyllid cyfalaf a £143m o gyllid refeniw yn cael eu dyrannu fel rhan o'r gyllideb hon i gefnogi blaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer bysiau.

Nid yw penderfyniadau terfynol wedi'u gwneud eto ar yr union ddyraniadau i ffrydiau cyllido unigol mewn perthynas â'r cyllidebau hyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27. Y flaenoriaeth, fodd bynnag, fydd rhoi cymorth parhaus i'r prisiau siwrneiau consesiynol gorfodol, grantiau bysiau, paratoi ar gyfer masnachfreinio (gan gynnwys buddsoddi yn y fflyd a depos), a phrisiau tocynnau bws gwell i bobl ifanc.

**Manylion am y modd y mae dyraniadau'r gyllideb ddrafft yn cefnogi - Cefnogaeth i ddarpariaeth seilwaith gwefru cerbydau trydan a chyflawni'r strategaeth / cynllun gweithredu, gan gynnwys crynodeb o weithgarwch arfaethedig a thabl yn manylu ar gyfanswm a dyraniadau y pen ar gyfer 2026-27 o gymharu â phob un o'r tair blwyddyn flaenorol. Dylai dyraniadau refeniw a'r dyraniadau cyfalaf fod yn glir, a dylai'r tabl gael ei ddadansoddi fesul ffrwd ariannu unigol.**

Mae'r cynlluniau terfynol ar gyfer y seilwaith gwefru cerbydau trydan yn 2026-27 yn dal i gael eu cwblhau. Bydd y rhain yn cynnwys buddsoddiad pellach mewn gosod seilwaith EV mewn gorsafoedd rheilffordd. Maent hefyd yn debygol o gynnwys rhaglen hyfforddi i uwchsgilio staff awdurdodau lleol, y gwaith blynyddol o gynnal a chadw'r seilwaith presennol ar y rhwydwaith ffyrdd a rheilffyrdd strategol a defnyddio dull seiliedig ar dystiolaeth i nodi'r ardaloedd targed ar gyfer safleoedd gwefru cerbydau trydan.

Darparwyd cyllid grant i awdurdodau lleol fuddsoddi mewn seilwaith gwefru EV yn flaenorol drwy'r Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn. Bydd yn cael ei ddisodli gan y Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol yn 2026-27. Mae rhagor o fanylion am hyn ar gael isod, ynghyd â manylion cyllid ar gyfer seilwaith gwefru EV a grantiau awdurdodau lleol eraill yn y tair blynedd blaenorol.

**Manylion am y modd y mae dyraniadau'r gyllideb ddrafft yn cefnogi - Cefnogaeth i flaenoriaethau trafnidiaeth lleol, gan gynnwys darparu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a chefnogaeth i Gyd-bwyllgorau Gwladol ar drafnidiaeth. Dylai hyn gynnwys manylion ynghylch pa linellau cyllideb blaenorol, os o gwbl, sydd wedi'u hymgorffori mewn unrhyw ddyraniadau rhanbarthol newydd a manylion ar unrhyw agweddau wedi'u neilltuo ar ddyraniadau o'r fath.**

Yn y gyllideb hon rydym wedi dyrannu £126m i gefnogi ein blaenoriaethau trafnidiaeth rhanbarthol, gan gynnwys y Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol. Mae'r cyllid hwn yn rhan o BEL 1882 Trafnidiaeth Ranbarthol a Theithio Llesol.

Yn 2026-27 byddwn yn moderneiddio ein grantiau trafnidiaeth awdurdodau lleol er mwyn helpu i gyflawni'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol newydd sydd wedi'u creu ar gyfer pob rhanbarth yng Nghymru. Mae Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn darparu cynllun strategol pum mlynedd ar gyfer sut bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cael ei chyflawni ym mhob rhanbarth.

Bydd cyllid a ddyrannwyd yn flaenorol drwy'r Gronfa Teithio Llesol, Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, y Gronfa Trafnidiaeth Leol, y Gronfa Ffyrdd Gwydn, y Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn, y Gronfa Cyfalaf a Refeniw Diogelwch ar y Ffyrdd, a'r gronfa Ffyrdd Heb eu Mabwysiadu yn cael ei gyfuno dan un ffynhonnell gyllid o'r enw'r Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol. Roedd y cyllid hwn i gyd yn rhan o'r BEL Trafnidiaeth Ranbarthol a Theithio Llesol yn 2025-26.

Byddwn yn rhoi mwy o lais i arweinwyr lleol am fuddsoddi yn eu rhanbarth, drwy ofyn i awdurdodau lleol gyflwyno rhaglen o gynlluniau ar y cyd a fydd yn cyflawni eu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol orau, yn seiliedig ar argymhellion eu Cyd-bwyllgor Corfforedig. Bydd hyn hefyd yn lleihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol. Ni fydd cyllid yn cael ei neilltuo at ddibenion penodol, ond bydd Llywodraeth Cymru yn asesu pob rhaglen i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol cyn rhoi grantiau i awdurdodau lleol.

Mae'r tabl isod yn dangos manylion y grantiau trafnidiaeth awdurdodau lleol a ddyfarnwyd dros y tair blynedd diwethaf.

| | **2023-24** | **2024-25** | **2025-26** |
|---|---|---|---|
| Cronfa Teithio Llesol - cyfalaf | £49,652,848 | £50,047,512 | 45,103,100 |
| Llwybrau Diogel mewn Cymunedau - cyfalaf | £4,727,367 | £6,149,338 | 4,143,244 |
| Y Gronfa Trafnidiaeth Leol – cyfalaf | 20,944,956 | 23,065,289 | 22,201,000 |
| Y Gronfa Ffyrdd Gwydn – cyfalaf | 7,392,692 | 9,073,000 | 20,821,000 |
| Ffyrdd heb eu Mabwysiadu – cyfalaf | 458,328 | | 984,000 |
| Y Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn – cyfalaf | 6,678,336 | 6,589,213 | 6,157,815 |
| Diogelwch ar y Ffyrdd - cyfalaf | - | 3,553,177 | 3,926,947 |
| Diogelwch ar y Ffyrdd – refeniw | 1,630,356 | 1,597,645 | 1,593,979 |
| 20MYA – cyfalaf | 21,318,995 | 7,432,131 | 5,107,052 |
| **Cyfanswm** | **112,803,878** | **107,507,305** | **110,038,137** |

**Sut mae'r gyllideb ddrafft yn darparu ar gyfer cyflawni polisi teithio llesol**

Fel y nodir uchod, bydd y Gronfa Teithio Llesol yn cael ei disodli gan y Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol o 2026-27, gyda dyfarniadau yn seiliedig ar y polisïau a nodwyd yng Nghynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r Cynlluniau Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol cysylltiedig. Yn seiliedig ar rôl amlwg teithio llesol yn y cynlluniau hyn, rydym yn disgwyl i gyfran sylweddol o'r gyllideb gael ei dyrannu i gynlluniau teithio llesol ym mhob un o'r pedwar rhanbarth yng Nghymru.

Bydd y cyllid a ddyrennir yn galluogi TrC i barhau i ddarparu arbenigedd a chymorth manwl ar gyfer teithio llesol ochr yn ochr â chymorth aml-ddull ehangach i awdurdodau lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig wrth ddatblygu cynlluniau, a pharhau i ddarparu swyddogaethau cymorth canolog, gan gynnwys diweddaru canllawiau cenedlaethol, offer blaenoriaethu, adnoddau hyrwyddo, monitro a gwerthuso, yn ogystal â meithrin gallu a galluogrwydd.

Bydd hefyd yn ariannu parhad ein rhaglenni cenedlaethol i annog pobl i gerdded, olwynio a beicio mewn ysgolion ledled Cymru, a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau'r cysondeb gorau posibl rhwng buddsoddiad mewn seilwaith a chyflawni'r rhaglenni hyn.

## Crynodeb

Mae Dyraniadau MEG Trafnidiaeth yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2026-27 yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor i'w hystyried.

## Atodiad A – Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BELs) – MEG Trafnidiaeth

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb (Refeniw)** | | **Cynlluniau yn unol â Chyllideb Derfynol 2025-26 Ailddatganwyd Chwefror 2025** | **Addasiadau i'r llinell sylfaen ar gyfer 2026-27** | **Llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-27** | **Newidiadau** | **Cyllideb Ddrafft 2026-27 Hydref 2025** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** |
| BEL 3830 – Datblygu Seilwaith Strategol | | 950 | 51 | 1001 | 0 | 1001 |
| **Cam gweithredu:** | **Seilwaith Strategol** | **950** | **51** | **1001** | **0** | **1001** |
| BEL 1884 - Taliadau Contractiol y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol | | 57,857 | 0 | 57,857 | 9,811 | 67,668 |
| BEL 1885 – Gweithrediadau ac Adnewyddiadau'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol | | 60,050 | 17 | 60,067 | 0 | 60,067 |
| **Cam gweithredu:** | **Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd** | **117,907** | **17** | **117,924** | **9,811** | **127,735** |
| 1886 – Gweithrediadau Rhwydwaith - heb fod yn arian parod | | 188,691 | 0 | 188,691 | 0 | 188,691 |
| **Cam gweithredu:** | **Gwella a Chynnal y Rhwydwaith Cefnffyrdd (Ffyrdd Domestig) –** | **188,691** | **0** | **188,691** | **0** | **188,691** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Adnoddau nad ydynt yn Arian Parod** | | | | | |
| BEL – 1883 Cysylltedd Cenedlaethol a Rhyngwladol | | 4,100 | 0 | 4,100 | 0 | 4,100 |
| BEL – 1895 Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Rheilffyrdd | | 381,950 | 6,480 | 388,430 | 12,569 | 400,999 |
| BEL – 1886 Trafnidiaeth Cymru - heb fod yn arian parod | | 38,000 | 0 | 38,000 | 0 | 38,000 |
| **Cam gweithredu:** | **Gwasanaethau ar Ffyrdd, Rheilffyrdd, Awyr a Môr a Buddsoddi** | **424,050** | **6,480** | **430,530** | **12,569** | **443,099** |
| BEL – 1880 Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Bysiau | | 140,500 | 0 | 140,500 | 2,669 | 143,169 |
| BEL – 1882 Trafnidiaeth Ranbarthol a Theithio Llesol | | 8,800 | 0 | 8,800 | 4,000 | 12,800 |
| BEL – 2030 Datblygiadau Polisi a Phrosiectau Cenedlaethol | | 7,200 | 0 | 7,200 | 0 | 7,200 |
| **Cam gweithredu:** | **Teithio Cynaliadwy** | **156,500** | **0** | **156,500** | **6,669** | **163,169** |
| BEL – 1250 Y Lluoedd Arfog | | 370 | 0 | 370 | 0 | 370 |
| **Cam gweithredu:** | **Y Lluoedd Arfog** | **370** | **0** | **370** | **0** | **370** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prif Grŵp Gwariant:** | **Cyfanswm Cyllideb Adnoddau Trafnidiaeth** | **888,468** | **6,548** | **895,016** | **29,049** | **924,065** |

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb (Cyfalaf)** | | **Cynlluniau yn unol â Chyllideb Derfynol 2025-26 Ailddatganwyd Chwefror 2025** | **Addasiadau i'r llinell sylfaen ar gyfer 2026-27** | **Llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-27** | **Newidiadau** | **Cyllideb Ddrafft 2026-27 Hydref 2025** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** |
| BEL 3830 – Datblygu Seilwaith Strategol | | 5,000 | 0 | 5,000 | 0 | 5,000 |
| **Cam gweithredu:** | **Seilwaith Strategol** | **5,000** | **0** | **5,000** | **0** | **5,000** |
| BEL 1885 – Gweithrediadau ac Adnewyddiadau'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol | | 186,800 | -400 | 186,400 | 8,920 | 195,320 |
| **Cam gweithredu:** | **Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd** | **186,800** | **-400** | **186,400** | **8,920** | **195,320** |
| BEL – 1895 Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Rheilffyrdd | | 181,597 | 0 | 181,597 | -1,264 | 180,333 |
| **Cam gweithredu:** | **Gwasanaethau ar Ffyrdd, Rheilffyrdd, Awyr a Môr a Buddsoddi** | **181,597** | **0** | **181,597** | **-1,264** | **180,333** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| BEL – 1880 Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Bysiau | | 31,000 | 0 | 31,000 | 8,920 | 39,920 |
| BEL – 1882 Trafnidiaeth Ranbarthol a Theithio Llesol | | 120,000 | 0 | 120,000 | 6,000 | 126,000 |
| BEL – 2030 Datblygiadau Polisi a Phrosiectau Cenedlaethol | | 4,800 | 0 | 4,800 | 0 | 4,800 |
| **Cam gweithredu:** | **Teithio Cynaliadwy** | **155,800** | **0** | **155,800** | **14,920** | **170,720** |
| **Prif Grŵp Gwariant:** | **Cyfanswm Cyllideb Cyfalaf Trafnidiaeth** | **529,197** | **-400** | **528,797** | **22,576** | **551,373** |

| **Adnodd Llinell Wariant yn y Gyllideb (Gwariant a Reolir yn Flynyddol)** | **Cynlluniau yn unol â Chyllideb Derfynol Cyllideb Derfynol Ailddatganwyd Chwefror 2025** | **Addasiadau i'r llinell sylfaen ar gyfer 2026-27** | **2026-27 Llinell sylfaen ddiwygiedig** | **Newidiadau** | **2026-27 Cyllideb Ddrafft Hydref 2025** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** |
| BEL 1940 – Amhariadau Ffyrdd – AME | 0 | 0 | 0 | 44,936 | 44,936 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cam gweithredu:** | **Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd – Adnoddau nad ydynt yn Arian Parod** | **0** | **0** | **0** | **44,936** | **44,936** |
| BEL 1896 – Trafnidiaeth Cymru – AME | | 2,000 | 0 | 2,000 | 0 | 2,000 |
| **Cam gweithredu:** | **Gwasanaethau ar Ffyrdd, Rheilffyrdd, Awyr a Môr a Buddsoddi** | **2,000** | **0** | **2,000** | **0** | **2,000** |
| **Prif Grŵp Gwariant:** | **Cyllideb AME Adnoddau Trafnidiaeth** | **2,000** | **0** | **2,000** | **44,936** | **46,936** |